# Pobl yn cael gafael ar newyddion yn y Deyrnas Unedig: 2024

Canfyddiadau'r ymchwil

Fersiwn Saesneg ar gael

**Adroddiad**

Cyhoeddwyd ar 10 Medi 2024

# Cynnwys

## Adran

Trosolwg ........................................................................................................ 3
Crynodeb o'r canfyddiadau ........................................................................................ 6

## Atodiad

Methodoleg ........................................................................................................ 24

# Trosolwg

Mae'r adroddiad cryno hwn yn rhoi prif ganfyddiadau Arolwg Cael Gafael ar Newyddion diweddaraf Ofcom, sy'n edrych ar sut mae oedolion a phobl ifanc yn eu harddegau yn y Deyrnas Unedig yn cael gafael ar newyddion ar draws teledu, radio, print ac ar-lein (gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, peiriannau chwilio, cyd-gasglwyr newyddion a gwefannau ac apiau eraill).

Nod yr adroddiad hwn a'r dogfennau cysylltiedig yw cyfrannu at ddealltwriaeth o'r defnydd o newyddion ledled y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn cynnwys ffynonellau a llwyfannau a ddefnyddir, barn ar ba mor bwysig yw gwahanol sefydliadau newyddion, agweddau at ffynonellau newyddion unigol, defnydd o newyddion lleol a defnydd o newyddion rhyngwladol a lleol.

Er mai'r brif ffynhonnell ar gyfer yr adroddiad hwn yw Arolwg Cael Gafael ar Newyddion Ofcom, mae'r adroddiad hefyd yn defnyddio Barb[1] ar gyfer data gwylio teledu, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom ac ymchwil Ofcom ar Luosogrwydd Cyfryngau a Newyddion Ar-lein 2022. Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolwg i oedolion eleni dros ddwy don: 6 Tachwedd – 3 Rhagfyr 2023 a 26 Chwefror – 23 Ebrill 2024. Er hwylustod adrodd, rydym yn cyfeirio at y data arolwg diweddaraf hwn fel '2024' drwy gydol y ddogfen. Rydym yn cymharu â ffigurau o 2018, ac eithrio 2021 pan nad oedd gwaith maes oherwydd y pandemig Covid. Nid yw cymariaethau â blynyddoedd cyn 2018 yn bosibl oherwydd newidiadau methodolegol.

Sefydlwyd arolwg Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig 2024 i fonitro diddordeb oedolion yn y Deyrnas Unedig mewn newyddion a materion cyfoes a'u hymgysylltiad â nhw yn ystod cyfnod yr etholiad cyffredinol, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut maent yn ffurfio eu barn a'u profiadau o gamwybodaeth bosibl. Mae'r arolwg annibynnol hwn yn ategu'r arolwg tracio Cael Gafael ar Newyddion. Bydd hwn yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad cryno hwn.

### Beth rydym wedi ei ganfod – yn gryno

**Cael gafael ar newyddion yn gyffredinol:**

- Dywed mwyafrif llethol (96%) o oedolion y Deyrnas Unedig eu bod yn cael newyddion ar ryw ffurf. Fodd bynnag, mae'r ffyrdd mae pobl yn cael mynediad at yr amrywiaeth eang o lwyfannau newyddion yn newid.
- Yn 2024, mae saith o bob deg (71%) yn dweud eu bod yn cael gafael ar newyddion ar-lein mewn rhyw ffordd, yn gydradd â'r newyddion sy'n cael ei wylio drwy'r teledu ac ar-alw (70%). Mae cyfryngau cymdeithasol yn elfen sylweddol o gael gafael ar newyddion ar-lein, gyda thros hanner oedolion y Deyrnas Unedig (52%) yn ei ddefnyddio fel ffynhonnell newyddion.
- Er bod gwylio newyddion teledu, y llwyfan a oedd yn cael ei ddefnyddio fwyaf yn flaenorol, wedi gostwng ers y llynedd (75% yn 2023, gan ddisgyn i 70% yn 2024), rydym yn gwybod o ddata Barb bod hanner yr holl oedolion (51%) yn dal i wylio newyddion ar unrhyw un o'r prif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus bob wythnos. Mae'r traciwr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn dangos bod gwerth cyhoeddus newyddion dibynadwy a chywir yn flaenoriaeth i gynulleidfaoedd ac yn cael sgôr uchel.

[1] Barb yw safon y diwydiant ar gyfer deall beth mae pobl yn y Deyrnas Unedig yn ei wylio.

- Er bod cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein wedi cynyddu o ran defnydd, mae llwyfannau traddodiadol yn perfformio'n well na nhw ar nifer o sgoriau priodoleddau; yn benodol, ymddiriedaeth, cywirdeb a diduedddrwydd.

- Mae allbwn newyddion y BBC, ar draws ei holl lwyfannau, yn cyrraedd 68% o holl oedolion y Deyrnas Unedig, gyda BBC One yn parhau i fod y ffynhonnell unigol sy'n cael ei defnyddio amlaf i gael newyddion. Fodd bynnag, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn lleihau o ran poblogrwydd ac mae pedwar o'r deg prif ffynhonnell newyddion unigol bellach yn llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

- Mae'r defnydd o bapurau newydd ar gyfer newyddion, gan gynnwys eu fformatau digidol, wedi gostwng yn sylweddol ers 2023, ac mae'r defnydd o radio ar gyfer newyddion wedi bod yn sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf.

**Ar-lein a chyfryngau cymdeithasol:**

- Ymysg oedolion sy'n cael mynediad uniongyrchol at gyhoeddwyr newyddion, gwefannau ac apiau, gwefan y BBC (59%) sydd â'r defnydd uchaf a hawliwyd, yna Sky (20%), The Guardian (20%) a The Daily Mail (19%).

- Facebook yw'r ffynhonnell cyfryngau cymdeithasol sy'n cael ei defnyddio fwyaf o hyd (gan gyrraedd 30% o oedolion y Deyrnas Unedig), yn unol â 2023, ac mae TikTok wedi datblygu'n fwyfwy poblogaidd fel ffynhonnell newyddion, gan gyrraedd 11% o oedolion y Deyrnas Unedig, sy'n gynnydd o'r 1% a gofnodwyd yn 2020.

- Mae chwech o bob deg oedolyn yn y Deyrnas Unedig (59%) yn dweud eu bod yn defnyddio rhyw fath o gyfryngwr ar-lein (cyfryngau cymdeithasol, peiriant chwilio neu gyd-gasglwr newyddion) i gael gafael ar newyddion. Meta (40%) a Google (32%) yw'r cyfryngwyr a ddefnyddir amlaf, sy'n cyrraedd tri chwarter yr holl oedolion.

**Gwahaniaethau rhwng y cenedlaethau (16-24 oed a thros 55):**

- Mae ffynonellau ar-lein yn parhau i fod yn fwyaf poblogaidd ymysg y grwpiau oedran iau, gyda naw o bob deg (88%) o bobl ifanc 16-24 oed yn defnyddio ffynonellau ar-lein ar gyfer newyddion. Y cyfryngau cymdeithasol yw prif sbardun hyn, gydag wyth o bob deg (82%) o oedolion ifanc yn defnyddio'r llwyfan hwn. Dim ond hanner y bobl 16-24 oed (49%) sy'n defnyddio'r teledu i gael newyddion.

- I'r gwrthwyneb, newyddion teledu (gan gynnwys ar-alw) yw'r prif lwyfan newyddion sy'n cael ei ddefnyddio gan 85% o bobl 55 oed a hŷn. Ond mae'r grŵp oedran hwn hefyd yn mabwysiadu newyddion ar-lein yn raddol, gyda thros hanner (54%) bellach yn defnyddio llwyfannau ar-lein ar gyfer newyddion. Mae hyn yn cael ei sbarduno'n bennaf gan fynediad uniongyrchol (at gyhoeddwyr newyddion, gwefannau ac apiau), gyda dim ond 28% o'r rhai sy'n 55 oed a hŷn yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar gyfer newyddion.

**Pobl ifanc yn eu harddegau (12-15 oed):**

- Mae ein data yn dangos bod pobl ifanc yn tueddu i fod â diddordeb mewn newyddion ysgafnach yn hytrach na newyddion mwy difrifol. Mae'r tri phwnc sydd fwyaf o ddiddordeb iddynt yn cynnwys: 'chwaraeon/personoliaethau chwaraeon' (21%); 'newyddion am gerddoriaeth/cantorion' (13%); 'enwogion/pobl enwog' (10%).

- Er mai'r BBC sydd â'r cyrhaeddiad uchaf mewn unrhyw sefydliad, gyda'i gynnwys newyddion wedi cael ei ddefnyddio gan 36% o'r grŵp oedran hwn, TikTok (30%), YouTube (27%) a Facebook

ac Instagram (21% ill dau) yw'r tair ffynhonnell unigol a ddefnyddir fwyaf ar gyfer newyddion: Dywedodd 12% o bobl ifanc yn eu harddegau mai TikTok oedd eu prif ffynhonnell newyddion.

- Mae pobl ifanc yn tueddu i roi sgôr uwch i ffynonellau traddodiadol na ffynonellau ar-lein. Dywedodd pedwar deg pump y cant o bobl ifanc yn eu harddegau sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar gyfer newyddion ei fod yn '*darparu straeon newyddion dibynadwy'* o'i gymharu â 77% o bobl ifanc yn defnyddio'r teledu ar gyfer newyddion a 76% o bobl ifanc yn eu harddegau a oedd yn defnyddio radio ar gyfer newyddion.

**Nodyn ymchwil:**

Cofiwch wrth ddarllen yr adroddiad hwn, pan fydd ymatebydd yn nodi ei fod yn defnyddio llwyfannau ar-lein neu gyfryngau cymdeithasol ar gyfer newyddion, mae'n bosibl ei fod yn cyfeirio at negeseuon gan gyhoeddwyr newyddion traddodiadol fel y BBC, negeseuon gan newyddiadurwyr neu ffigurau cyhoeddus, neu gynnwys sy'n cael ei bostio/rhannu gan ffrindiau a theulu, ac ati.


# Crynodeb o'r canfyddiadau

## Cael gafael ar newyddion yn gyffredinol

### Mae patrymau defnyddio newyddion yn parhau i symud oddi wrth lwyfannau traddodiadol tuag at ffynonellau ar-lein.

Mae mwyafrif llethol (96%) o oedolion y Deyrnas Unedig yn gwylio, yn gwrando neu'n darllen newyddion ar ryw ffurf. Fodd bynnag, mae'r ffordd mae pobl yn cael mynediad at yr amrywiaeth eang o lwyfannau newyddion yn newid. Mewn blynyddoedd blaenorol, teledu yw'r llwyfan sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf i gael gafael ar newyddion, ond mae hyn wedi bod yn gostwng yn raddol, gyda gostyngiad mwy serth ers 2023. I'r gwrthwyneb, mae'r defnydd o ffynonellau ar-lein ar gyfer newyddion yn parhau i gynyddu. Yn 2024, mae saith o bob deg (71%) oedolyn yn y Deyrnas Unedig yn cael newyddion drwy ffynonellau ar-lein; mae hyn bellach ar yr un lefel â theledu (70%).[2] Mae cyfryngau cymdeithasol yn elfen sylweddol o gael gafael ar newyddion ar-lein, gyda thros hanner oedolion y Deyrnas Unedig dros 16 oed (52%) yn eu defnyddio yn awr fel ffynhonnell newyddion.

**Ffigur *1*: Y prif lwyfannau a ddefnyddir i gael newyddion y dyddiau hyn[3]**




*Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024. Cwestiwn: C1. Pa rai o'r llwyfannau canlynol ydych chi'n eu defnyddio i gael newyddion y dyddiau hyn? Sylfaen: Pob oedolyn 16+. 2024=5545, 2023=4556, 2022 W2*=2792, 2020=4576, 2019=4691, 2018=4618.*


Mae'r defnydd o bapurau newydd hefyd yn gostwng yn y tymor hir. Y llynedd, fe wnaethom ddamcaniaethu y gallai'r gostyngiad fod wedi dod i ben, ond mae ein data diweddaraf yn dangos bod gostyngiadau sylweddol yn y defnydd o fformatau papurau newydd print a digidol ers 2023. Mae'r defnydd o radio ar gyfer newyddion wedi bod yn sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf.

[2] Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau fideo ar-alw darlledu fel BBC iPlayer, ITVX/ITV Premium a Channel 4/Channel 4+ fel ffynonellau newyddion.
[3] Mae 'ar-lein' yn cynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, podlediadau, apiau negeseuon a phob gwefan/ap arall mae modd cael gafael arnynt drwy unrhyw ddyfais. Ychwanegwyd gwasanaethau radio ar-lein, apiau negeseuon a dyfeisiau clyfar yn 2024; ychwanegwyd BVoD yn 2023.

## Mae tueddiadau demograffig yn amlwg – mae grwpiau oedran iau yn fwy tebygol o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ar gyfer newyddion

Mae Ffigur 2 yn dangos y prif lwyfannau a ddefnyddiwyd i gael newyddion, yn ôl oedran. Mae ffynonellau ar-lein yn parhau i fod yn fwyaf poblogaidd ymysg y grwpiau oedran iau, gyda naw o bob deg (88%) o bobl ifanc 16-24 oed yn eu defnyddio ar gyfer newyddion. Y cyfryngau cymdeithasol yw prif sbardun hyn, gydag wyth o bob deg (82%) o oedolion ifanc 16-24 oed yn eu defnyddio. Ffynonellau newyddion traddodiadol yw'r dewisiadau mwyaf cyffredin o hyd ymysg y grwpiau oedran hŷn.

**Ffigur *2*: Y prif lwyfannau a ddefnyddir ar gyfer newyddion, yn ôl grŵp oedran: 2024**




*Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024. Cwestiwn: C1. Pa rai o'r llwyfannau canlynol ydych chi'n eu defnyddio i gael newyddion y dyddiau hyn? Sylfaen: Pob oedolyn 16 oed a hŷn 2024 – rhwng 16 a 24 oed=692. 25-34=825, 35-44=928, 45-54=930, 55-64=721, 65-74=795, 75+=574.*

Roedd nifer cymedrig y ffynonellau newyddion a ddefnyddiwyd, ar draws pob llwyfan, yn 6.9 yn 2024, yn unol â 7.1 yn 2018. Roedd y rhai rhwng 16 a 24 oed yn defnyddio mwy o ffynonellau newyddion na'r rhai 55 oed a hŷn (7.5 o'i gymharu â 6.2) gan adlewyrchu amrywiaeth ehangach o ffynonellau ar-lein a ddefnyddiwyd.[4] Nifer cymedrig y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a oedd yn cael eu defnyddio gan oedolion yn y Deyrnas Unedig oedd 1.5, gan ostwng i 1 ymysg pobl ifanc 16-24 oed a chodi i 2 ymysg y rhai dros 55 oed.


## Mae pobl hŷn yn ychwanegu ffynonellau newyddion ar-lein yn raddol at eu deiet newyddion

Yn ffigur 3, rydym yn gweld y prif lwyfannau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer newyddion, dros y chwe blynedd diwethaf, ar gyfer y rhai sy'n 55 oed a hŷn. Fel arfer, mae'r grŵp oedran hwn yn defnyddio teledu fel eu prif ffynhonnell newyddion, gydag wyth o bob deg (85%) yn gwneud hynny ar hyn o bryd. Ond rydym hefyd yn gweld cynnydd graddol yn eu defnydd o ffynonellau ar-lein; mae dros hanner y grŵp oedran hwn (54%) bellach yn cael gafael ar newyddion fel hyn. Mae hyn yn cael ei sbarduno'n bennaf gan fynediad uniongyrchol at newyddion ar-lein – dim ond 28% o'r rhai sy'n 55 oed a hŷn sy'n dweud eu bod yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar gyfer newyddion, sy'n sylweddol is na phobl 16-24 oed, sef 82%.

[4] Nifer y ffynonellau newyddion a gafwyd wrth i gyfranogwyr ddewis yr holl ffynonellau newyddion maent yn eu defnyddio.

Mae'r mynediad uniongyrchol hwn at newyddion ar-lein yn cynnwys newyddion ar-lein y BBC (20% o'r rhai sy'n 55 oed a hŷn o'i gymharu â 13% o bobl 16-24 oed) a The Daily Mail Online (7% o'r rhai sy'n 55 oed a hŷn o'i gymharu â 3% o bobl 16-24 oed a hŷn).

**Ffigur 3: Y prif lwyfannau a ddefnyddir ar gyfer newyddion y dyddiau hyn, oedolion 55 oed a hŷn: 2018-2024**




*Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024. Cwestiwn: C1. Pa rai o'r llwyfannau canlynol ydych chi'n eu defnyddio i gael newyddion y dyddiau hyn? Sylfaen: Pob oedolyn 55 oed a hŷn 2024 – 2018=1612, 2019=1518 2020=1526, 2022=981, 2023=1607, 2024=2090.*

## Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dal i fod yn ffynonellau newyddion pwysig, er eu bod yn dirywio ar lwyfannau traddodiadol.

Mae Ffigur 4 yn dangos yr 20 prif ffynhonnell newyddion unigol dros y chwe blynedd diwethaf. Er mai BBC One (43%) ac ITV (30%) yw'r ddwy ffynhonnell fwyaf poblogaidd o hyd, mae gostyngiad graddol wedi bod dros amser i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Yn ein data diweddaraf, mae Channel 4 wedi disgyn allan o'r deg prif ffynhonnell unigol ar gyfer gwylio newyddion, o 17% yn 2022 i 14% yn 2024.

Fel y nodwyd uchod, mae'r cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio fwyfwy, ac mae pedwar o'r deg prif ffynhonnell unigol ar gyfer cael gafael ar newyddion yn llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Mae YouTube hefyd yn dod yn ffordd bwysig o gael gafael ar newyddion. Mae'r canfyddiad hwn yn cyd-fynd â thwf cyffredinol llwyfannau rhannu fideos ar gyfer gwylio cynnwys teledu a fideo yn gyffredinol, a nodwyd yn ein cyhoeddiad Cyfryngau'r Genedl yn ddiweddar.

**Nodyn ymchwil:**

Eleni, cafodd YouTube ei symud o'r cwestiwn defnydd 'ar-lein arall' (D8a) i'r cwestiwn defnydd 'cyfryngau cymdeithasol' (D7a), gan arwain at gynnydd mewn amlygrwydd ar gyfer yr opsiwn ateb 'YouTube', a allai gyfrif am y cynnydd cymharol fawr a welwyd ers y llynedd.

**Ffigur 4: Yr 20 prif ffynhonnell newyddion: 2019-2024**[5]

| | 2019 | 2020 | 2022* | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| BBC One | 58% | 56% | 53% | 49% | 43% ▼ |
| ITV/ITV CYMRU/UTV/STV | 40% | 41% | 35% | 34% | 30% ▼ |
| Facebook | 35% | 34% | 32% | 30% | 30% |
| BBC iPlayer** | - | - | - | 24% | 23% |
| YouTube | 6% | 6% | 8% | 7% | 19% ▲ |
| Sianel Sky News | 23% | 25% | 23% | 21% | 19% |
| Sianel BBC News | 23% | 21% | 24% | 23% | 18% ▼ |
| Newyddion y BBC ar-lein (gwefan/ap) | 25% | 23% | 23% | 22% | 18% ▼ |
| Instagram | 13% | 14% | 16% | 16% | 18% |
| X (Twitter yn flaenorol) | 16% | 17% | 17% | 17% | 15% |
| WhatsApp | 14% | 13% | 14% | 13% | 14% |
| Channel 4 | 17% | 18% | 17% | 16% | 14% |
| Google (peiriant chwilio) | 19% | 15% | 12% | 13% | 14% |
| Daily Mail/Mail on Sunday | 18% | 17% | 15% | 14% | 13% |
| Channel 4 / Channel 4+ ** (All 4/All4+) | - | - | - | 8% | 12% ▲ |
| ITVX/ITVX Premium** | - | - | - | 11% | 12% |
| TikTok** | - | 1% | 7% | 10% | 11% |
| The Guardian/Observer | 11% | 10% | 10% | 10% | 10% |
| BBC Radio 2 | 12% | 12% | 11% | 11% | 10% |
| BBC Sounds** | - | - | - | - | 9% |

▲▼ Yn uwch/is o lawer na 2023

*Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024. Cwestiwn: D2a-D8a. Gan feddwl yn benodol am <platfform>, pa rai o'r canlynol ydych chi'n eu defnyddio i gael newyddion y dyddiau hyn? D8a Diwygio geiriad y cwestiwn ar gyfer brandiau newyddion ar-lein. Sylfaen: Pawb sy'n oedolion 16 oed a hŷn - 2024=5466, 2023=4556, 2022=2792, 2020=4576, 2019=4691.*

Mae pwysigrwydd cyfryngau cymdeithasol ymhlith pobl ifanc yn amlwg wrth edrych ar y prif ffynonellau unigol a ddefnyddir. Instagram (41%), YouTube (37%)[6], Facebook (35%), TikTok (33%) ac 'X' (27) yw'r pum prif ffynhonnell newyddion sy'n cael eu defnyddio gan bobl ifanc 16-24 oed. Mae BBC iPlayer (23%) a BBC One (23%) yn y 6ed safle ar y cyd.

Mae'r rhai sy'n 55 oed neu'n hŷn yn dibynnu'n fwy ar y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a ffynonellau teledu. BBC One (62%) yw'r un sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf, ac yna ITV (43%), BBC News

[5] Cafodd BBC Sounds ei ychwanegu yn 2024; ychwanegwyd BBC iPlayer, ITVX, Channel 4+/Channel 4+ yn 2023; ychwanegwyd TikTok yn 2020. Data 2022 ton 1 a 2021 heb ei ddangos oherwydd nad oedd gwaith maes wyneb yn wyneb yn bosibl yn ystod y pandemig Covid-19.


[6] Fel y nodwyd uchod, cafodd YouTube ei symud o'r cwestiwn defnyddio 'ar-lein arall' i'r cwestiwn defnyddio 'cyfryngau cymdeithasol', gan arwain at gynnydd yn amlygrwydd yr opsiwn 'YouTube', a allai gyfrif am y cynnydd cymharol fawr ers 2023.

Channel (23%), BBC iPlayer (21%) a Sky News (20%). Facebook (19%) yw'r unig ffynhonnell cyfryngau cymdeithasol yn y deg prif ffynhonnell ar gyfer y grŵp hwn.

## Mae'n well gan oedolion hŷn ddarparwyr newyddion sefydledig, ac nid oes gan bobl ifanc un dewis pendant

Fel 'brodorion digidol', mae pobl ifanc 16-24 oed wedi tyfu i fyny gydag amrywiaeth eang o ffynonellau ar-lein sydd ar gael iddynt. O'r herwydd, nid ydynt yn ffafrio un ffynhonnell newyddion 'mwyaf pwysig' yn glir. Mae'r dewisiadau'n cael eu rhannu ar draws amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys Facebook, X (Twitter, gynt), YouTube, Instagram, TikTok a BBC One. I'r gwrthwyneb, roedd y rhai sy'n 55 oed a hŷn, sydd wedi tyfu i fyny gyda newyddion teledu (a radio), yn ffafrio'r darlledwyr teledu yn glir; roedd 27% o'r rhai sy'n 55 oed a hŷn yn dweud mai BBC One oedd y ffynhonnell newyddion roeddent yn ei ffafrio fwyaf ac roedd 12% yn dewis ITV.

**Ffigur *5*: Un ffynhonnell newyddion bwysicaf, grwpiau hŷn o'u cymharu â grwpiau oedran iau: 2024**





*Ffynhonnell: Ofcom Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2024 - sampl CYFUN F2F ac AR-LEIN. Cwestiwn: E1a. O edrych ar yr holl ffynonellau newyddion rydych chi newydd ddweud eich bod yn eu defnyddio, pa un sydd bwysicaf i chi? Sylfaen: Pob oedolyn 16 oed a hŷn yn nodi o leiaf un ffynhonnell ar gyfer newyddion 2024. 16 – 24 oed=637, 55 oed a hŷn=2020.*

## Ar lefel darparwyr, y BBC sy'n dal i gael y cyrhaeddiad mwyaf ar draws llwyfannau

Mae allbwn newyddion y BBC, ar draws ei holl lwyfannau (teledu, radio, gwefan newyddion, BBC Sounds a BBC iPlayer), yn cyrraedd 68% o holl oedolion y Deyrnas Unedig. Dilynir hyn gan y llwyfannau Meta (Facebook, Instagram a WhatsApp), sy'n cael eu defnyddio gan un o bob pedwar, ac yna allbwn ITV (drwy'r teledu, y wefan ac ITVX) sy'n cyrraedd 38%. Mae traean o oedolion y Deyrnas Unedig yn defnyddio llwyfannau Google (Google News, Google a YouTube[7]) ac mae un o bob pedwar yn defnyddio Sky a Channel 4 (y ddau yn 22%).

[7] Fel y nodwyd uchod, cafodd YouTube ei symud o'r cwestiwn defnyddio 'ar-lein arall' i'r cwestiwn defnyddio 'cyfryngau cymdeithasol', gan arwain at gynnydd yn amlygrwydd yr opsiwn 'YouTube', a allai gyfrif am y cynnydd mawr a welwyd.

**Ffigur 6: Darparwyr manwerthu ar draws llwyfannau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer newyddion 'y dyddiau hyn'**




*Ffynhonnell: Arolwg Defnyddio Newyddion Ofcom 2024 - sampl CYFUN F2F ac AR-LEIN, cwestiwn sampl: D2a-D8a. Gan feddwl yn benodol am < llwyfan>, pa rai o'r canlynol ydych chi'n eu defnyddio i gael newyddion y dyddiau hyn? Sylfaen: Pob oedolyn 16 oed a hŷn 2024=5466 Meta** = Facebook + Instagram + Threads + WhatsApp. Google*** = Google News + Google + YouTube.*

## Mae llwyfannau newyddion traddodiadol yn sgorio'n uwch o ran ymddiriedaeth, cywirdeb a didueddrwydd na llwyfannau newyddion ar-lein neu gyfryngau cymdeithasol

Roeddem wedi edrych ar y sgoriau priodoleddau ar draws pob llwyfan, ac mae teledu, radio a phapurau newydd print yn dal i gael sgôr uchel am nodweddion fel cywirdeb, ymddiriedaeth a didueddrwydd. Yn gyffredinol, mae ffynonellau ar-lein yn cael sgôr sydd ddeg pwynt canran yn is na'r llwyfannau traddodiadol. Yn benodol, ymysg defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol, mae cywirdeb, ymddiriedaeth, didueddrwydd ac ansawdd uchel yn cael sgôr is. Ond mae'r cyfryngau cymdeithasol yn cael sgôr cymharol dda o ran '*cynnig amrywiaeth o safbwyntiau*', '*mae'n fy helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn y byd heddiw*' a bod yn '*bwysig i mi'n bersonol*'. Roedd ein data'n dangos mai pobl iau (16-24 oed) sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fwyaf ar gyfer newyddion, ond eu bod yn ei sgorio'n is na'r cyfartaledd o ran cywirdeb, dibynadwyedd a didueddrwydd.

**Ffigur 7: Sgoriau nodweddion llwyfannau newyddion (sgôr 7-10)**

| | Sianeli darlledu teledu | Print papurau newydd | Radio (all-lein) | Pob ffynhonnell ar-lein | Cyfryngau cymdeithasol |
|---|---|---|---|---|---|
| Yn bwysig i mi'n bersonol | 71% | 67% | 64% | 61% | 61% |
| Mae'n fy helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn y byd heddiw | 73% | 66% | 66% | 59% | 54% |
| Mae'n cynnig amrywiaeth o safbwyntiau | 66% | 63% | 62% | 58% | 59% |
| O ansawdd uchel | 74% | 67% | 68% | 56% | 46% |
| Yn gywir | 70% | 66% | 69% | 53% | 44% (37% ymysg pobl 16-24 oed) |
| Yn ddibynadwy | 69% | 66% | 68% | 53% | 43% (37% ymysg pobl 16-24 oed) |
| Mae ganddo ddyfnder dadansoddi a chynnwys nad yw ar gael mewn mannau eraill | 63% | 62% | 55% | 53% | 47% |
| Mae'n fy helpu i benderfynu | 60% | 61% | 57% | 51% | 46% |
| Mae'n ddiduedd | 61% | 61% | 60% | 49% | 42% (35% ymysg pobl 16-24 oed) |

*Ffynhonnell: Ofcom Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2024 - sampl CYFUN F2F ac AR-LEIN. Cwestiwn: E2. Pa mor bwysig yw <BRAND> fel ffynhonnell newyddion i chi'n bersonol? E3. Ac i ba raddau ydych chi'n meddwl bod y datganiadau a ganlyn yn berthnasol i <BRAND> fel ffynhonnell newyddion? Atebwch gan ddefnyddio graddfa o 1 i 10. Sylfaen: Pob sgôr gan y rhai sy'n defnyddio pob llwyfan ar gyfer newyddion o leiaf unwaith yr wythnos (bob 2-3 wythnos ar gyfer papurau newydd/cylchgronau wythnosol) 2024 – teledu=8130, papurau newydd=3036, radio=2411, popeth ar-lein=12218, cyfryngau cymdeithasol=5375.*


# Golwg ar newyddion teledu

## Y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a Sky News yw'r ffynonellau newyddion teledu sy'n cael eu defnyddio fwyaf o hyd

Gan edrych ar y prif sianeli teledu a ddarlledir sy'n cael eu defnyddio, BBC One yw'r sianel sy'n cael ei defnyddio fwyaf, ac yna ITV1. Yn yr un modd â'r blynyddoedd blaenorol, mae hyn yn dangos yn glir oruchafiaeth y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a Sky News. Gyda'i gilydd, maent yn cyrraedd 91% o holl gynulleidfaoedd newyddion teledu'r Deyrnas Unedig, ac mae'r BBC (ar draws ei holl sianeli) yn cyrraedd 80%.

O'r holl oedolion sy'n defnyddio teledu sy'n cael ei ddarlledu neu fideo ar-alw sy'n cael ei ddarlledu (BVoD) ar gyfer newyddion, mae pedwar o bob deg (43%) yn dweud eu bod yn defnyddio *unrhyw* wasanaeth BVoD darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer newyddion. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ers y llynedd, wedi ei sbarduno gan wylio gwasanaeth ffrydio Channel 4 (7% o gynnydd o'r 10% yn 2023). BBC iPlayer yw'r gwasanaeth BVoD mwyaf poblogaidd o hyd, gydag un o bob tri yn ei ddefnyddio ar gyfer newyddion (32%).

**Ffigur 8: Cyrhaeddiad sianeli teledu a BVoD ymysg pawb sy'n defnyddio teledu i gael newyddion 'y dyddiau hyn'**





*Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024. Cwestiwn: D2a. Gan feddwl yn benodol am y teledu, pa rai o'r canlynol ydych chi'n eu defnyddio i gael newyddion y dyddiau hyn? D2ai. Pa rai o'r gwasanaethau ar-alw neu ddal i fyny a ganlyn, os o gwbl, ydych chi'n eu defnyddio i gael newyddion y dyddiau hyn Sylfaen: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n defnyddio'r teledu i gael newyddion y dyddiau hyn – 2024=3804, Pob oedolyn sy'n defnyddio'r teledu (darlledu neu BVOD) i gael newyddion – 2024=4010. Dim ond y ffynonellau sydd â nifer o 5%+ yn 2024 a ddangosir.*

## Mae data Barb yn dangos y gostyngiad yn lefelau gwylio newyddion teledu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus dros amser

Mae hanner yr holl unigolion yn gwylio newyddion ar unrhyw un o’r prif Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus bob wythnos, sy'n 15 pwynt canran o ostyngiad ers 2018.  BBC One sydd â’r cyrhaeddiad uchaf o blith yr holl sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ond mae hefyd wedi gostwng cyfran debyg dros y cyfnod hwn.


**Ffigur 9: Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog newyddion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn ôl darlledwr gwasanaeth cyhoeddus: 2018-2024 Q1**




*Ffynhonnell: Data cyfunol 28 diwrnod BARB. Meini prawf cyrhaeddiad: 3 munud a mwy yn olynol. Gwylio genres newyddion cenedlaethol/rhyngwladol a genres newyddion cyffredinol. Setiau teledu yn unig.*

Ymysg pobl ifanc 16-24 oed, mae cyrhaeddiad newyddion darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi haneru o 34% yn 2018 i 15% yn 2024 Ch1, ond mae’n dal yn gymharol gryf i oedolion 55 oed a hŷn, gydag wyth o bob deg yn gwylio newyddion ar unrhyw un o’r prif sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Fodd bynnag, mae hyn wedi gostwng o naw o bob deg yn 2018.

**Ffigur 10: Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog newyddion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, 16-24 oed a 55 oed a hŷn: 2018-2024 Q1**




*Ffynhonnell: Data cyfunol 28 diwrnod BARB. Meini prawf cyrhaeddiad: 3 munud a mwy yn olynol. Gwylio genres newyddion cenedlaethol/rhyngwladol a genres newyddion cyffredinol. Setiau teledu yn unig.*

## Er gwaethaf y gostyngiad hwn mewn gwylio, mae newyddion dibynadwy a chywir y Deyrnas Unedig yn dal yn flaenoriaeth i gynulleidfaoedd…

Mae Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2023 Ofcom yn dangos mai '*newyddion dibynadwy a chywir am y Deyrnas Unedig'* yw nodwedd gymdeithasol bwysicaf cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus o hyd, gyda 49% o'r ymatebwyr yn ei roi yn y tri nodwedd bwysicaf ymysg darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

**Ffigur 11: Pwysigrwydd darparu priodoleddau darlledu gwasanaeth cyhoeddus (sgoriau 1af, 2il, 3ydd o ran pwysigrwydd): 2023**





*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2023. Q27. Rydyn ni nawr eisiau i chi feddwl beth rydych chi'n teimlo sydd bwysicaf i 'darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus' ei gyflawni ar gyfer cymdeithas yn gyffredinol, felly pawb yn y Deyrnas Unedig. Gan feddwl am y rhestr isod o ddatganiadau, nodwch beth, yn eich barn chi, yw'r tair nodwedd bwysicaf. Sylfaen: Pob ymatebydd, ac eithrio rhai a gwblhawyd dros y ffôn. Cyfanswm (3027).*

## …ac mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu gweld fel rhai sy'n cyflawni yn y maes hwn gyda'i gilydd

Mae'r ymchwil hwn hefyd yn dangos ei bod yn ymddangos bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ar y cyfan, yn cyflawni yn y maes hwn, gyda 63% o'r ymatebwyr yn dweud bod darpariaeth newyddion darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn *'ddibynadwy ac yn gywir'*. Mae'r ffigur hwn wedi aros yn sefydlog dros y tair blynedd diwethaf, gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu gweld yn cyflawni'n dda yn y maes hwn yn gyson (2021 61%; 62% 2022; 2023 63%).

### Ffigur 12: Sgoriau cyflawni (7-10) priodoleddau darlledu gwasanaeth cyhoeddus: 2023




*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2023*
*Q26. Yn dda (7-10) Crynodeb – Pa mor dda neu wael fyddech chi'n ei ddweud eu bod yn darparu ...?*
*Sylfaen: Pawb a wyliodd y sianel yn ystod 6 mis diwethaf 2023: (2841).*

# Golwg ar ddulliau cael gafael ar newyddion ar-lein

**Nodyn ymchwil:**

Rydym yn gwybod bod newyddion ar-lein yn cael ei ddefnyddio'n gyflym ac yn oddefol, a bod amcangyfrifon pobl o lefelau eu defnydd yn annibynadwy, fel sy'n cael ei gadarnhau gan ymchwil Ofcom ar luosogrwydd yn y cyfryngau yn 2022. Rydym wedi ceisio gwella'r gwaith mesur yn y maes hwn drwy addasu'r cwestiynau a ofynnir i ddefnyddwyr newyddion ar-lein yn yr arolwg hwn, ond mae heriau o ran mesur yn dal i fodoli, felly'r NCS yw ein prif ffynhonnell o dystiolaeth yn y maes hwn o hyd.

Cofiwch, pan fydd ymatebydd yn nodi ei fod yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar gyfer newyddion, mae'n bosibl ei fod yn cyfeirio at negeseuon gan gyhoeddwyr newyddion traddodiadol fel y BBC, negeseuon gan newyddiadurwyr neu ffigurau cyhoeddus, neu gynnwys sy'n cael ei bostio/rhannu gan ffrindiau a theulu, ac ati.

## O ran mynediad uniongyrchol at wefannau newyddion ar-lein, gwefan y BBC yw'r ffynhonnell sy'n cael ei defnyddio fwyaf o hyd, ac yna Sky, The Guardian a The Daily Mail

Ymysg oedolion sy'n cael mynediad uniongyrchol at gyhoeddwyr newyddion, gwefannau ac apiau, gwefan y BBC (59%) sydd â'r defnydd uchaf a hawliwyd, gyda Sky (20%), The Guardian (20%) a The Daily Mail (19%) yn y tri safle nesaf. Y ffynhonnell egsgliwsif ar-lein uchaf yw Buzzfeed News (10%), er gwaethaf ei fwriad datganedig i ddod â'i waith newyddion i ben i ganolbwyntio ymdrechion ar gynnig newyddion HuffPost (8%).

**Ffigur 13: Y prif wefannau neu apiau mynediad uniongyrchol ar-lein sy'n cael eu defnyddio ar gyfer newyddion ymysg y rhai sy'n cael mynediad uniongyrchol at wefannau newyddion**[8]

| | 2019 | 2020 | 2022* | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Newyddion y BBC ar-lein**** | 65% | 60% | 62% | 58% | 59% |
| Sky News ar-lein | 20% | 20% | 20% | 16% | 20% |
| Newyddion 'The Guardian/Observer' ar-lein | 18% | 18% | 19% | 16% | 20% |
| Newyddion 'The Daily Mail' ar-lein | 17% | 18% | 18% | 16% | 19% |
| Newyddion Buzzfeed ar-lein | 9% | 10% | 7% | 6% | 10% ▲ |
| Newyddion ITV/ITN ar-lein*** | 8% | 10% | 8% | 8% | 9% |
| Newyddion LADbible ar-lein | 6% | 8% | 6% | 7% | 9% |
| GB News online***** | - | - | - | - | 9% |
| Newyddion 'The Telegraph' ar-lein | 8% | 8% | 7% | 5% | 9% ▲ |
| Newyddion HuffPost ar-lein | 11% | 10% | 7% | 6% | 8% |
| Newyddion 'y Metro' ar-lein | 5% | 6% | 5% | 4% | 8% ▲ |
| Newyddion 'The Independent' ar-lein | 8% | 7% | 6% | 5% | 8% |
| Gwefannau/apiau unrhyw bapur newydd lleol | 10% | 10% | 10% | 8% | 7% |
| Newyddion y CNN ar-lein | 4% | 5% | 8% | 6% | 7% |
| Newyddion 'The Sun' ar-lein | 7% | 6% | 6% | 6% | 7% |
| Newyddion 'The Daily Mirror' ar-lein | 5% | 5% | 5% | 5% | 6% |
| Newyddion Channel 4 ar-lein | 4% | 5% | 6% | 5% | 6% |
| Newyddion 'The New York Times' ar-lein | 3% | 3% | 3% | 3% | 6% ▲ |
| Newyddion 'The Economist' ar-lein | 4% | 3% | 4% | 2% | 6% ▲ |

▲▼ Yn uwch/is o lawer na 2023

*Ffynhonnell: Ofcom Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2024 - sampl CYFUN F2F ac AR-LEIN. Cwestiwn: D8a. Gan feddwl am y ffyrdd hyn o gael newyddion (ar unrhyw ddyfais), drwy ba rai o'r brandiau a ganlyn ydych chi'n cael newyddion ar-lein y dyddiau hyn? Sylfaen: Pob oedolyn sy'n defnyddio gwefannau/apiau eraill ar gyfer newyddion - 2024=1749, 2023=1639, 2022 W2=1021, 2020=1757, 2019=1773. Dim ond y ffynonellau sydd â nifer o 5% yn 2024 a ddangosir.*

## O ran cyfryngau cymdeithasol, Meta a Google sy'n dal i gael y cyrhaeddiad amlycaf ymysg cyfryngwyr ar-lein


Mae chwech o bob deg oedolyn (59%) yn dweud eu bod yn defnyddio rhyw fath o gyfryngwr ar-lein (cyfryngau cymdeithasol, peiriant chwilio neu gyd-gasglwr newyddion) i gael gafael ar newyddion. Meta (40%) a Google (32%) yw'r cyfryngwyr a ddefnyddir amlaf, sy'n cyrraedd tri chwarter yr holl oedolion. Mae llai nag un o bob deg oedolyn yn dweud eu bod yn defnyddio cyfryngwyr ar-lein yn unig ar gyfer cael gafael ar newyddion (7%).

Ymysg yr holl oedolion sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar gyfer newyddion, Facebook yw'r ffynhonnell fwyaf poblogaidd o hyd (58%). Fodd bynnag, o'i gymharu â 2023, mae cyfrannau llai yn defnyddio Facebook ac X yn awr, sydd wedi gostwng chwech a saith pwynt canran yn y drefn honno.

[8] Data 2022 ton 1 a 2021 heb ei ddangos oherwydd nad oedd gwaith maes wyneb yn wyneb yn bosibl yn ystod pandemig Covid-19. Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn i'r rhai a ddywedodd eu bod yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol *a dim mathau eraill* o wefannau/apiau ar gyfer newyddion. Cafodd GB News online ei ychwanegu yn 2024.

Mae cyfran net Meta ar draws ei holl lwyfannau (Facebook, Instagram a WhatsApp) yn parhau i ostwng o un flwyddyn i'r llall (2022 84%; 2023 80%; 2024 78%).

**Ffigur 14: Ffynonellau cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir i gael newyddion: 2019-2024**





*Ffynhonnell: Ofcom Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2024 - sampl CYFUN F2F ac AR-LEIN. Cwestiwn: D7a. Gan feddwl yn benodol am y cyfryngau cymdeithasol (ar unrhyw ddyfais), pa rai o'r canlynol ydych chi'n eu defnyddio i gael gafael ar newyddion y dyddiau hyn –Sylfaen: Pob oedolyn sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer newyddion – 2024=2764, 2023=2220, 2022 W2=1365, 2020=2143, 2019=2331, **Ychwanegwyd TikTok yn 2020 ***cyn-2024; gofynnwyd am ddefnyddio YouTube yng nghyd-destun gwefannau/apiau newyddion, wedi newid i gyfryngau cymdeithasol yn 2024. Dangosir dim ond y ffynonellau a welodd 5% o gynnydd yn 2024.*

## Gweld newyddion, sylwadau a dolenni sy'n trendio yw'r ffyrdd mwyaf poblogaidd o gael gafael ar newyddion drwy gyfryngau cymdeithasol

Ar draws yr holl ffynonellau newyddion poblogaidd ar y cyfryngau cymdeithasol, 'gweld straeon sy'n trendio' oedd y ffordd fwyaf cyffredin o gael gafael ar straeon newyddion. Roedd ffyrdd eraill o gael gafael ar newyddion yn dibynnu'n bennaf ar bensaernïaeth y llwyfan; roedd defnyddwyr llwyfannau fideo, fel TikTok, wedi dweud eu bod wedi gweld fideos am straeon newyddion, ac roedd defnyddwyr llwyfannau seiliedig ar destun, fel Facebook neu X (Twitter, gynt), wedi dweud eu bod wedi gweld sylwadau gan ffrindiau am straeon newyddion, neu ddolenni gan bobl maent yn eu dilyn.

Eleni, fe wnaethom geisio deall sut mae pobl yn cael gafael ar newyddion ar y cyfryngau cymdeithasol drwy ofyn iddynt pwy maent yn ei ddilyn ar y llwyfan hwn. Mae gan ffynonellau fel Facebook (Twitter, gynt) gyfran uwch o ddefnyddwyr yn dilyn newyddiadurwyr a ffigyrau cyhoeddus ar gyfer newyddion na ffynonellau cyfryngau cymdeithasol eraill. O ran dilyn cyhoeddwyr newyddion ar gyfryngau cymdeithasol, mae tri o bob deg (28%) o ddefnyddwyr X yn dweud eu bod yn dilyn y BBC, o'i gymharu ag 20% o ddefnyddwyr Instagram ac 17% o ddefnyddwyr TikTok a Facebook. Mae un o bob pump (19%) o ddefnyddwyr X yn dweud eu bod yn dilyn sefydliadau newyddion traddodiadol eraill fel Sky neu The Daily Mail, o'i gymharu â 7% o ddefnyddwyr TikTok. Ac mae 15% o ddefnyddwyr TikTok yn dweud eu bod yn dilyn newyddiadurwyr penodol, o'i gymharu â 5% o ddefnyddwyr TikTok.

### Ffigur 15: Sut mae modd cael gafael ar straeon newyddion ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol: 2024[9]





*Ffynhonnell: Ofcom Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2024 - sampl CYFUN F2F ac AR-LEIN. Cwestiwn: D9. Fe wnaethoch chi sôn yn gynharach eich bod chi'n cael newyddion oddi ar <safle cyfryngau cymdeithasol>. Pa rai o'r rhain ydych chi'n eu gwneud y dyddiau hyn? Sylfaen: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n defnyddio pob safle ar gyfer newyddion 2024 – Facebook=1707, Instagram=978, X=836, TikTok=632, Snapchat=341 *Heb eu cynnwys yn y rhestr atebion ar gyfer y safle cyfryngau cymdeithasol hwn.*

## Mae newyddion yn cael ei ystyried yn fwy cywir a dibynadwy ar beiriannau chwilio a gwasanaethau cyd-gasglu newyddion nag ar y cyfryngau cymdeithasol

Mae Ffigur 16 yn dangos bod peiriannau chwilio/cyd-gasglwyr newyddion, ar gyfartaledd, yn cael sgôr uwch am ansawdd, cywirdeb, dibynadwyedd a didueddrwydd na chyfryngau cymdeithasol. O'r brandiau cyfryngau cymdeithasol, nid yw Facebook yn perfformio cystal â'r brandiau eraill ar draws llawer o nodweddion fel ansawdd, cywirdeb a dibynadwyedd.

### Ffigur 16: Sgôr priodoleddau ffynonellau ar-lein (sgoriau 7-10): 2024




*Ofcom Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2024 - sampl CYFUN F2F ac AR-LEIN. Cwestiwn: E2. Pa mor bwysig yw <BRAND> fel ffynhonnell newyddion i chi'n bersonol? E3. Ac i ba raddau ydych chi'n meddwl bod y datganiadau a ganlyn yn berthnasol i <BRAND> fel ffynhonnell newyddion? Atebwch gan ddefnyddio graddfa o 1 i 10. Sylfaen: Pob sgôr gan oedolion sy'n defnyddio pob llwyfan ar gyfer newyddion o leiaf unwaith yr wythnos 2024 – Pob un ar-lein=12218, cyfryngau cymdeithasol=5375, fideo ar-alw gan ddefnyddio'r teledu=2365, peiriannau*

[9] * Yn dangos swyddogaethau neu nodweddion nad ydynt yn bresennol ar y llwyfan, neu ddim yn allweddol iddo.

*chwilio/cyd-gasglwyr newyddion=1032, gwefannau/apiau eraill ar gyfer newyddion=3446.*


# Golwg ar bobl ifanc (12-15 oed)

## Mae gan blant 12-15 oed lai o ddiddordeb mewn newyddion difrifol

Yn yr un modd â mewn blynyddoedd blaenorol, mae pobl ifanc yn tueddu i ymddiddori mwy mewn mathau ysgafnach o newyddion nag mewn newyddion difrifol. Y pynciau sydd o'r diddordeb mwyaf iddynt yw: 'chwaraeon/personoliaethau chwaraeon' (21%), 'cantorion/newyddion cerddoriaeth' (13%), 'enwogion/pobl enwog' (10%); 'anifeiliaid neu'r amgylchedd' (9%); ffasiwn a harddwch (9%) a 'gwyddoniaeth a thechnoleg' (9%).

Siarad gyda theulu yw'r ffordd fwyaf cyffredin o hyd o gael gwybod am newyddion ymysg plant 12-15 oed (60%), yna'r cyfryngau cymdeithasol (55%), gwylio'r teledu (53%) a siarad â ffrindiau (50%). Fodd bynnag, o'i gymharu â'r llynedd, mae'r cyfryngau cymdeithasol (23%) a theledu (22%) wedi symud yn uwch na siarad â'r teulu (17%) fel y ffynhonnell newyddion a ddefnyddir amlaf gan bobl ifanc yn eu harddegau. Ac yn debyg i oedolion, mae cyrhaeddiad teledu fel ffynhonnell newyddion wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf (o 68% yn 2018 i 53% yn 2024). Mae'r gostyngiad parhaus yn lefelau gwylio newyddion teledu ymysg pobl ifanc yn eu harddegau yn golygu bod y cyfryngau cymdeithasol wedi codi i'r ail safle yn y rhestr o ffynonellau sy'n cael eu defnyddio gan bobl ifanc yn eu harddegau ar gyfer newyddion.

**Ffigur 17: Pob llwyfan a ddefnyddir gan blant 12-15 oed i gael newyddion 'y dyddiau hyn': 2020-2024**




% defnyddiwyd

| 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|
| 68% | 68% | 65% | 68% | 60% ▼ |
| 55% | 57% | 57% | 54% | 55% |
| 67% | 65% | 59% | 57% | 53% |
| 49% | 53% | 53% | 56% | 50% ▼ |
| 38% | 34% | 34% | 33% | 31% |
| 31% | 33% | 29% | 30% | 29% |
| 20% | 21% | 20% | 20% | 17% |
| 15% | 16% | 13% | 15% | 12% |
| * | * | * | * | 11% |
| * | * | * | * | 11% |
| 7% | 10% | 8% | 9% | 11% |
| 11% | 11% | 9% | 11% | 10% |
| 3% | 3% | 4% | 5% | 7% |

▲▼ Yn uwch/is o lawer na 2023


*Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion ymysg Pobl Ifanc yn eu Harddegau 2024. Cwestiwn: C1. Dyma restr o wahanol ffyrdd y gallwch gael gwybodaeth am straeon newyddion neu gael y newyddion diweddaraf amdanynt. Pa rai o'r ffyrdd hyn ydych chi'n eu defnyddio? C2. A pha rai o'r ffyrdd hyn ydych chi'n eu defnyddio fwyaf i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am straeon newyddion? Sylfaen: Pob unigolyn ifanc rhwng 12 a 15 oed - 2024=1007, 2020-2023=1000-1010 Ychwanegwyd dyfeisiau clyfar ac apiau negeseua/cymdogaethau fel categorïau ar wahân yn 2024. **Mae gwefannau/apiau eraill yn cynnwys unrhyw ffynhonnell newyddion ar-lein nad ydynt yn dod o dan gategorïau penodol eraill.*

## TikTok yw’r un ffynhonnell newyddion sy’n cael ei defnyddio fwyaf ar draws pob llwyfan, ac yna YouTube, Facebook ac Instagram, ond mae cyrhaeddiad ffynonellau cyfun y BBC yn dal yn uwch

Er mai’r BBC sydd â’r cyrhaeddiad uchaf mewn unrhyw sefydliad newyddion, gyda’i gynnwys yn cyrraedd 36% o’r grŵp oedran hwn, TikTok (30%), YouTube (27%) Facebook ac Instagram (21% ill dau) yw’r ffynonellau unigol a ddefnyddir fwyaf ar gyfer newyddion. BBC One/Two yw’r unig ffynhonnell sydd wedi gostwng ers y llynedd (o 21% yn 2023 i 16% yn 2024), gan barhau â’r gostyngiad hirdymor a welwyd ers 2020.

Mae un o bob deg unigolyn ifanc (12%) yn dewis TikTok fel eu ffynhonnell newyddion bwysicaf – mwy nag unrhyw ffynhonnell unigol arall, er mai YouTube yw’r ail ffynhonnell newyddion unigol a ddefnyddir fwyaf ymysg pobl ifanc, gyda 7% yn dweud mai dyma eu ffynhonnell newyddion bwysicaf. Er gwaethaf y gostyngiad yn ei ddefnydd, mae cyfran debyg (7%) yn dweud mai BBC One/Two yw eu ffynhonnell bwysicaf. Mae’r ffaith mai bron i hanner y rhai sy’n defnyddio gwasanaeth newyddion teledu’r BBC fel eu ffynhonnell newyddion bwysicaf yn dangos y gwerth maent yn ei roi arno. Mae’r duedd hon i’w gweld ar draws darlledwyr teledu eraill hefyd. Mae ITV a Sky News yn cael eu rhestru’n gyfrannol uwch gan bobl ifanc yn eu harddegau fel rhai ‘mwyaf pwysig’ na’u safle cyfatebol yn y ‘ffynonellau newyddion mwyaf poblogaidd a ddefnyddir’.

### Ffigur 18: Y prif ffynonellau newyddion a ddefnyddir gan blant 12-15 oed: 2020-2024




% a ddefnyddiwyd

| | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| NET BBC | 51% | 46% | 39% | 39% | 36% |
| TikTok | 11% | 22% | 28% | 28% | 30% |
| YouTube | 30% | 33% | 28% | 25% | 27% |
| Facebook (gan gynnwys Messenger) | 29% | 27% | 22% | 18% | 21% |
| Instagram | 28% | 28% | 29% | 25% | 21% |
| ITV1/CITV/ITV CYMRU/UTV/STV | 28% | 24% | 25% | 21% | 20% |
| BBC One/BBC Two | 41% | 35% | 24% | 21% | 16% ▼ |
| Snapchat | 16% | 17% | 19% | 15% | 16% |
| WhatsApp | 16% | 21% | 17% | 15% | 16% |
| Sky News | 19% | 24% | 19% | 17% | 15% |
| BBC iPlayer* | * | * | * | 13% | 13% |
| Channel 4 | 12% | 12% | 10% | 11% | 12% |
| X (Twitter yn flaenorol) | 13% | 16% | 13% | 12% | 10% |
| Heart radio | 10% | 9% | 10% | 11% | 9% |
| BBC Radio 1/Newsbeat | 10% | 10% | 9% | 7% | 9% |
| Capital radio | 10% | 9% | 11% | 9% | 8% |
| BBC Radio 2 | 5% | 4% | 5% | 7% | 7% |
| Gwefannau/apiau BBC/CBBC | 10% | 10% | 8% | 7% | 6% |
| The Metro | 5% | 6% | 5% | 7% | 6% |
| CBBC (Newsround) | 9% | 10% | 9% | 6% | 6% |


▲▼ Yn uwch/is o lawer na 2023

*Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion ymysg Pobl Ifanc yn eu Harddegau 2024, Cwestiwn: D1. Pa rai o’r canlynol, os o gwbl, ydych chi’n eu defnyddio i ddarllen, gwylio, gwrando neu ddilyn straeon newyddion? E1a. Dyma restr o’r holl ffynonellau newyddion rydych chi’n dweud rydych chi’n eu defnyddio. Pa UN o’r rhain yw’r ffynhonnell newyddion bwysicaf i chi? Sylfaen: Pob unigolyn ifanc rhwng 12 a 15 oed - 2024 =1007, 2020-2023=1000-1010 *Ychwanegwyd BBC iPlayer yn 2023.*

Er eu bod yn gwyro tuag at gyfryngau cymdeithasol o ran cael gafael ar newyddion, wrth ystyried dibynadwyedd, mae pobl ifanc yn eu harddegau yn tueddu i roi sgôr uwch i ffynonellau traddodiadol na’u cyfoedion ar-lein. Dywedodd pedwar deg pump y cant o bobl ifanc sy’n defnyddio cyfryngau

cymdeithasol ar gyfer newyddion ei fod yn *'darparu straeon newyddion dibynadwy'*, o'i gymharu â 77% o ddefnyddwyr teledu a 76% o ddefnyddwyr radio.

**Ffigur 19: Priodweddau'r ffynonellau newyddion a ddefnyddir gan blant 12-15 oed: 2024**





*Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion ymysg Pobl Ifanc yn eu Harddegau 2024, Cwestiwn: E2. Byddwch nawr yn gweld yr holl ffynonellau newyddion eraill rydych chi'n eu defnyddio. Hoffwn i chi ddweud wrthyf pa mor bwysig yw pob un i chi. E3. Byddwch yn awr yn gweld rhestr o ddatganiadau. Hoffwn i chi ddweud wrthyf pa mor aml mae pob un o'r datganiadau hyn yn berthnasol i bob un o'r gwahanol ffynonellau newyddion Sail: Yr holl sgoriau gan bobl ifanc 12-15 oed sy'n defnyddio pob llwyfan ar gyfer newyddion yn 2024: cyfryngau cymdeithasol=1595, teledu=863; radio=526; papurau newydd=388; gwefannau/apiau eraill=19.*

## Mae pobl ifanc yn eu harddegau yn debygol o ddefnyddio Facebook, Instagram, Snapchat, TikTok a YouTube ar gyfer pynciau newyddion ysgafnach yn hytrach na phynciau newyddion mwy dwys

Yn unol â 2023, pynciau newyddion ysgafnach sydd o'r diddordeb mwyaf ar draws pob llwyfan cyfryngau cymdeithasol. Newyddion am 'enwogion' a 'cherddoriaeth' yw'r ddau ddewis gorau o hyd yn achos y rhai sy'n defnyddio TikTok, YouTube, Facebook, Instagram a Snapchat. Y pynciau poblogaidd eraill yw 'ffasiwn a harddwch' a 'chwaraeon'. Roedd pynciau trymach fel 'pethau difrifol sy'n digwydd yn y Deyrnas Unedig' neu 'mewn gwledydd eraill' neu 'wleidyddiaeth a materion cyfoes' yn llawer llai o ddiddordeb i ddefnyddwyr y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol hyn ar gyfer newyddion. X (Twitter, gynt) yw'r eithriad: mae 'pethau difrifol sy'n digwydd yn y Deyrnas Unedig' neu 'mewn gwledydd eraill' a 'gwleidyddiaeth a materion cyfoes' yn fwy poblogaidd ymysg ei sylfaen defnyddwyr.

### Ffigur 20: Mathau o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol newyddion y mae plant 12-15 oed yn eu defnyddio: 2024




*Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion ymysg Pobl Ifanc yn eu Harddegau 2024, Cwestiwn: E4: Pa rai o'r mathau canlynol o straeon newyddion ydych chi'n defnyddio <safle cyfryngau cymdeithasol> ar eu cyfer? Sylfaen: Pob unigolyn ifanc rhwng 12 a 15 oed sy'n defnyddio pob safle ar gyfer newyddion 2024 – TikTok=295, YouTube=272, Facebook=223, Instagram=219, Snapchat=152, X=113.*

# Methodoleg

## Arolwg oedolion

Rhwng mis Rhagfyr 2017 a mis Mawrth 2020, roedd Jigsaw Research wedi cynnal dull methodoleg gymysg, gan gyfuno cyfweliadau ar-lein ac wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, yn ystod y ddwy flynedd nesaf o ymchwil, nid oedd yn gallu gwneud hyn yn gyson, oherwydd pandemig Covid-19.

Gan fod methodolegau ar-lein yn tueddu i dangynrychioli'r rhai nad ydynt yn defnyddio fawr ar y rhyngrwyd/ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd o gwbl, cynhaliodd Jigsaw gyfuniad o gyfweliadau ar-lein a thros y ffôn yn ystod mis Tachwedd/Rhagfyr 2020, Mawrth/Ebrill 2021 a Thachwedd/Rhagfyr 2021, i sicrhau bod y grwpiau hyn yn cael cyfle i fynegi eu barn.

Ym mis Mawrth/Ebrill 2022, aeth Jigsaw yn ôl at y fethodoleg a ffafrir, sef cynnal cyfweliadau ar-lein ac wyneb yn wyneb, er mwyn bod yn gyson â blynyddoedd blaenorol. Defnyddiwyd y fethodoleg gymysg hon eto rhwng 6 Tachwedd a 3 Rhagfyr 2023 a 26 Chwefror – 23 Mawrth 2024. DS: Mae'r ddau gyfnod cyfweld hyn wedi aros yn weddol gyson dros y chwe blynedd diwethaf er mwyn sicrhau cymaroldeb.

Cynhaliwyd cyfanswm o 5,466 o gyfweliadau. Cynhaliwyd 2,149 wyneb yn wyneb a chynhaliwyd 3,317 ar-lein.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae Adroddiad Newyddion 2024 yn dangos data cyfun ar-lein ac wyneb yn wyneb am oedolion ar gyfer 2024, o'i gymharu â 2023, 2022 (Mawrth/Ebrill 2022 yn unig), 2020, 2019 a 2018.

Yn y ffrâm sampl, roedd y gwledydd yn cael eu gorgynrychioli i gynhyrchu samplau dibynadwy i'w dadansoddi. Mae'r data wedi cael ei bwysoli i gywiro'r gorgynrychiolaeth hon, gyda phwysau'n cael eu defnyddio i gyfateb i broffiliau poblogaeth hysbys. Yna, cymerwyd cam olaf i raddnodi rhwng y methodolegau wyneb yn wyneb ac ar-lein.

Mae manylion llawn dyluniad y sampl, y methodolegau ymchwil a'r gweithdrefnau pwysoli ar gael yn y ddogfen *Adroddiad Technegol i Oedolion* ar wahân.

Dangosir gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol o un flwyddyn i'r llall ar lefel hyder o 99%, oherwydd y gymhariaeth â maint sampl is 2022.

Mae'r arolwg yn cynnwys tua 200 o godau ar gyfer gwahanol ffynonellau newyddion posibl, yn ogystal â'r opsiwn i ganiatáu i ymatebwyr enwebu eu ffynonellau eu hunain sy'n arwain at oddeutu 800 arall, gan gynnwys ffynonellau rhanbarthol. Mae hyn yn rhoi mesur o'r gwaelod i fyny i ni o'r hyn mae pobl yn meddwl maen nhw'n ei ddefnyddio ar gyfer newyddion (am eu gwlad, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol) ac ni fydd o reidrwydd yn cynnwys pob darparwr posibl. Felly, mae'r arolwg yn darparu ystod fanwl o ffynonellau newyddion. Mae'r ffynonellau newyddion unigol hyn wedyn yn cael eu cyfuno i wahanol grwpiau neu 'rwydi' sy'n ymwneud â'u perchennog neu eu cyhoeddwr.

Arolwg yn seiliedig ar gofio'n ôl yw hwn. O'r herwydd, mae'n debygol o ddarparu canlyniadau ychydig yn wahanol i fathau eraill o fesur. Yn benodol, efallai y bydd yn tanamcangyfrif rhywfaint o weithgarwch cael gafael ar newyddion ar-lein. Mae'n debygol o fod yn anoddach i ymatebwyr gofio cael gafael ar newyddion ar-lein ad-hoc o'i gymharu â, dyweder, prynu papur newydd neu wylio bwletin teledu min nos. Ar y llaw arall, mae ymatebwyr yn dangos drwy arolygon o'r fath pa ffynonellau newyddion sy'n taro tant gyda nhw.

# Arolwg pobl ifanc yn eu harddegau

Nid yw'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer astudiaeth plant 12-15 oed wedi newid llawer dros y chwe blynedd diwethaf. Mae cyfanswm o 502 o gyfweliadau rhwng 6 Tachwedd a 3 Rhagfyr 2023 wedi cael eu cyfuno â 505 o gyfweliadau rhwng 26 Chwefror a 23 Mawrth 2024.

Pennwyd cwotâu ar oedran, rhyw, grŵp economaidd-gymdeithasol (SEG) a gwlad i sicrhau bod y sampl yn gynrychioliadol o'r Deyrnas Unedig ac mae'r data hefyd wedi ei bwysoli ar oedran, rhyw, SEG a gwlad. Mae manylion llawn dyluniad y sampl, methodoleg yr ymchwil a'r gweithdrefnau pwysoli ar gael yn y ddogfen *Adroddiad Technegol ar gyfer Pobl Ifanc yn eu Harddegau* ar wahân.

Dangosir gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol ar lefel hyder 95%.

Cyflawnwyd pob ton o waith maes mewn tri cham:

- Cam 1: Targedwyd rhieni plant 12-15 oed, gan ddefnyddio panel ar-lein.
- Cam 2: Cafodd rhieni eu sgrinio i sicrhau ein bod yn recriwtio sampl gynrychioliadol o gyfranogwyr.
- Cam 3: Gofynnodd y rhiant i'w plentyn yn ei arddegau (cymwys) lenwi gweddill yr holiadur.